# Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A489 (FFORDD LLANIDLOES, Y DRENEWYDD, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2014

MAE GWEINIDOGION CYMRU wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A489 yn Ffordd Llanidloes, Y Drenewydd, Powys, neu gerllaw iddi.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a ganlyn, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym ar 17 Tachwedd 2014 ac yn gweithredu yn y nos (rhwng 18:30 o'r gloch a 23:30 o'r gloch) hyd 21 Tachwedd 2014 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro pob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r A489 a elwir Ffordd Llanidloes, Y Drenewydd, sy'n ymestyn am 20 metr y naill ochr a'r llall i Bont Reilffordd Nant-oer.

Y llwybr amgen o ochr ddwyreiniol y darn fydd ar gau fydd dilyn yr A489 tua'r dwyrain, yr A483 tua'r gogledd-ddwyrain, y B4568 tua'r gogledd ac yna tua'r gorllewin, y B4569 tua'r de, yr A470 tua'r de-ddwyrain a'r A489 tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb o ochr orllewinol y darn fydd ar gau.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2014).

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## THE A489 TRUNK ROAD (LLANIDLOES ROAD, NEWTOWN, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2014

THE WELSH MINISTERS have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary because works are being undertaken on or near the A489 trunk road at Llanidloes Road, Newtown, Powys.

The following prohibition, which will be signed accordingly, is expected to come into force on 17 November 2014 and operate at night (between 18:30 hours and 23:30 hours) until 21 November 2014 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding in the length of the A489 known as Llanidloes Road, Newtown that extends for 20 metres either side of the Nantoer Railway Bridge.

The alternative route from the eastern side of the closure will be via the eastbound A489, north-eastbound A483, northbound then westbound B4568, southbound B4569, south-eastbound A470 and eastbound A489: vice versa from the western side of the closure.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2014).

**M D BURNELL**
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE